# maniffesto ar gyfer arfordiroedd a morweddau



## y cefndir

- Mae tirweddau a morweddau arfordirol y DU ymysg y rhai mwyaf amrywiol a diddorol yn y byd. Mae iddynt le arbennig ym meddylfryd ein cenedl fordeithiol, yn dal dychymyg y cyhoedd ac yn rhan allweddol o'n treftadaeth genedlaethol. Mae rhai morweddau'n nodedig oherwydd eu ffurfiau naturiol rhagorol, eraill oherwydd eu diwylliant a'u hanes, ond yn amlach na pheidio maent yn gyfuniad o'r ddau. Yn sicr, maent yn llawer mwy na golygfa'n unig.
- Mae ein harfordiroedd a'n morweddau'n bwysig iawn i bobl. Mae mynediad iddynt yn bwysig er lles ein hiechyd ac maent yn gwneud cyfraniad sylfaenol i economi a diwylliant ein cymunedau arfordirol. Mae angen rheoli cymeriad ac ansawdd tirweddau a morweddau'r arfordir mewn modd positif os ydym am eu cynnal er budd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- Mae pwysigrwydd cenedlaethol tiroedd arfordirol yn cael ei gydnabod drwy eu dynodiad fel tirweddau gwarchodedig. Gellir olrhain llawer o'u priodweddau mwyaf arbennig yn ôl i'w cysylltiad gyda'r amgylchedd morol. Fodd bynnag, nid oes modd o gydnabod drwy ddynodiad bwysigrwydd cenedlaethol y cysylltiad hwn mewn termau gofodol*, nag ychwaith o gydnabod pwysigrwydd cenedlaethol morweddau arbennig.
- Mae ein tirweddau a'n morweddau arfordirol o dan gryn bwysau o ganlyniad i weithgareddau dyn ee ynni confensiynol ac adnewyddadwy, datblygiadau porthladdoedd, hamdden a thwristiaeth, ac o ganlyniad newidiadau i'r byd naturiol sy'n gysylltiedig â lefel uwch y môr sy'n arwain yn ei dro at gynnydd mewn llifogydd ac erydiad arfordirol.
- Mae cyflwyniad system gynllunio forol newydd y DU yn cynnig cyfle unigryw i fynd i'r afael â dyfodol ein morweddau a thirweddau gwarchodedig arfordirol mewn modd integredig – gan alluogi cydnabyddiaeth lawn o bwysigrwydd ymdrin â thir a môr fel continwwm.
- Mae tirweddau gwarchodedig mewn sefyllfa ffafriol i wneud yn fawr o'r cysylltiadau rhwng tir a môr oherwydd y dull integredig o lunio eu cynlluniau rheoli a'r ffordd y maent yn dod â rhanddalwyr at ei gilydd mewn partneriaeth yn naturiol i gyflawni'r gwaith.

** Mae Deddf Parciau Cenedlaethol (yr Alban) 2000 yn sicrhau bod parciau cenedlaethol arfordirol a morol yn cael eu dynodi ar y cyd*

## y maniffesto

Mae'r mudiadau sy'n hyrwyddo'r maniffesto hwn yn galw ar Lywodraeth y DU, y llywodraethau datganoledig, awdurdodau cynllunio morol, asiantaethau cenedlaethol ac awdurdodau lleol arfordirol i sicrhau bod eu polisïau er gwireddu dyfodol cynaliadwy i'r amgylchedd arfordirol a morol yn cynnwys arfordiroedd a morweddau a rôl tirweddau a morweddau gwarchodedig yn y broses hon. Er mwyn gwneud hyn, dylent gydnabod:

**pwysigrwydd tirweddau a morweddau arfordirol**


1. **drwy fabwysiadu'r diffiniad canlynol o forwedd a ddeillia o ddiffiniad y Confensiwn Ewropeaidd ar Dirweddau o beth yw tirwedd: 'ardal, yn ôl amgyffred pobl, o fôr, arfordir a thir y mae ei nodweddion yn deillio o weithrediadau a rhyngweithio'r tir gyda'r môr drwy ffactorau naturiol a/neu ddynol'**
2. **drwy hyrwyddo morweddau fel adnodd allweddol yn yr amgylchedd morol ac fel fframwaith i fod yn sail i ddull cynaliadwy o'i gynllunio a'i reoli**
3. **drwy gydnabod cymeriad ac arwahanrwydd arfordiroedd a morweddau a sut y dylid eu gwarchod drwy'r broses gynllunio forol**
4. **drwy ddatblygu a chyflwyno egwyddorion sefydledig dadansoddiad nodweddion tirwedd a sensitifrwydd yn yr amgylchedd morol fel cydran hollbwysig o gynllunio morol**
5. **drwy adnabod arwynebeddau o forweddau sydd, oherwydd eu nodweddion esthetaidd, ecolegol a/neu ddiwylliannol rhagorol, o bwysigrwydd cenedlaethol, a sut y dylent gael eu gwarchod drwy'r broses gynllunio forol.**

Yn ogystal â hyn, dylai'r Llywodraeth, asiantaethau ac awdurdodau hefyd gydnabod bod:

**mae tirweddau arfordirol gwarchodedig yn arf allweddol ar gyfer rheoli arfordiroedd a morweddau**

6. **drwy eu hyrwyddo fel cydran o forweddau sy'n bwysig yn genedlaethol**
7. **drwy sicrhau bod gwarchodaeth a mwynhad o'u nodweddion arbennig, fel yr amlinellir yn eu cynlluniau rheoli, yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw gynllun morol neu bartneriaeth sy'n cynnwys yr arfordir neu'r môr o gwmpas**
8. **drwy danlinellu rôl tirweddau arfordirol gwarchodedig wrth gyfuno tir a môr drwy ehangu cwmpas eu cynlluniau rheoli a phartneriaethau a datblygu dulliau o reolaeth ar y cyd gyda rhanddalwyr sydd â buddiannau mewn ardaloedd gwarchodedig morol cyfagos.**

**'ardal, yn ôl amgyffred pobl, o fôr, arfordir a thir y mae ei nodweddion yn deillio o weithrediadau a rhyngweithio'r tir gyda'r môr drwy ffactorau naturiol a/neu ddynol' yw morwedd**








## tirweddau gwarchodedig y DU

Mae mwyafrif tirweddau gwarchodedig y DU yn cynnwys arfordir – 9 o'r 15 Parc Cenedlaethol, 25 o'r 46 Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol a 27 o'r 47 Ardal Olygfaol Genedlaethol yn yr Alban. Mae dimensiwn morol i'r tirweddau gwarchodedig hyn ac maent yn rhan o'r forwedd, er nad yw'r amgylchedd morol o dan y marc distyll wedi ei gynnwys yn y dynodiad.



- Parciau Cenedlaethol a Llynnoedd Norffolc
- Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
- Ardaloedd Golygfaol Cenedlaethol yn yr Alban
- Arfordir Treftadaeth

## hyrwyddir y maniffesto hwn gan

Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol
Campaign for National Parks

YDCW CPRW

EUROPARC Atlantic Isles

Campaign to Protect Rural England

Ymddiriedolaeth Genedlaethol National Trust

Landscapes for life .org.uk
THE NATIONAL ASSOCIATION Areas of Outstanding Natural Beauty

## am wybodaeth bellach

Cysylltwch â:
**Phil Dyke, Cadeirydd,**
**Gweithgor yr Arfordir a'r Môr Europarc Atlantic Isles**
E-bost **phil.dyke@nationaltrust.org.uk** Gwefan: **www.europarc-ai.org**

**© Europarc Atlantic Isles 2011**
Ffotograffau gan **Phil Dyke, NTPL/Joe Cornish, David Noton.**
Cynlluniwyd gan **Serpentine Design** Argraffwyd ar bapur 100% wedi ei ailgylchu gan **St Austell Printing Co Ltd**

# maniffesto ar gyfer arfordiroedd a morweddau

